

# Cynhadledd Llywodraethiant

25 Mawrth 2022

Dysgu. Cysylltu. Tyfu.



# Cynhadledd Llywodraethiant CHC 2022

Caiff Cynhadledd Llywodraethiant eleni ei llunio o amgylch saith egwyddor y Cod Llywodraethiant. Mewn cyfnod o newid a chythrwfl, rydym eisiau canolbwyntio ar gefnogi cymdeithasau tai i gyflenwi egwyddorion creiddiol llywodraethiant da. Rydym eisiau dathlu ein gwahaniaethau a'r hyn sy'n dod â ni ynghyd fel sector.

Byddwn yn cymryd y saith egwyddor ac yn ystyried yr hyn a olygant i sefydliadau unigol ac i'r sector yn ei gyfanrwydd. Yr egwyddorion yma yw:

**Diben**

**Arweinyddiaeth**

**Cywirdeb**

**Gwneud penderfyniadau, risg a rheoli**

**Effeithlonrwydd bwrdd**

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**

**Bod yn agored ac atebol**

Byddwn yn trafod y camau gweithredu sydd angen i ni eu cymryd yn 2022 i adeiladu ar ein cryfderau a manteisio ar gyfleoedd newydd a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

**Laura Courtney**

**Pennaeth Polisi a Materion Allanol**

**Cartrefi Cymunedol Cymru**

**#CHCgov22**



Noddwyd y gynhadledd hon yn garedig gan [SamKat](#)



## Dydd Gwener 25 Mawrth

9.00am	Cofrestru, rhwydweithio a gweld yr arddangosfa
9.15am	<p><b>Caffe Aelodau Bwrdd – Ein gweledigaeth ar gyfer Cymru, ein gweledigaeth ar gyfer tai cymdeithasol Julie James AC, Gweinidog Newid Hinsawdd mewn sgwrs gyda Michelle Reid, Prif Weithredwr, Cartrefi Cymoedd Merthyr a Chadeirydd y Gynhadledd</b></p> <p>@JulieJamesMS   @MichReid2014</p> <p>Mae egwyddor gyntaf Cod Llywodraethiant CHC yn canolbwyntio ar ddiben sefydliadol. Lluniwyd y sesiwn i ysbrydoli cymdeithasau tai sy'n dymuno cadw ffocws cadarn ar ddiben creiddiol mewn cyfnod anodd ac i osod gweledigaeth ar gyfer y sector fel mwy na chyfanswm ei rannau.</p> <p>Bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn rhannu ei gweledigaeth ar gyfer Cymru, ar gyfer mynd i'r afael â newid hinsawdd ac ar gyfer tai cymdeithasol. Bydd yn rhoi ei safbwynt ar y llu o heriau brys sy'n ein hwynebu a phwysigrwydd gweithio gyda'n partneriaid i ganfod datrysiadau creadigol ac effeithlon sy'n ein symud yn nes at gyflawni'r uchelgeisiau a rannwn ar gyfer ein tenantiaid, ein cymunedau ac ar gyfer Cymru.</p> <p>Fel Gweinidog gyda phortffolio llawn a chymhleth, aiff yn ei blaen i ystyried ei dull ei hunan at gadw ei ffocws ar ddiben craidd, ac unrhyw gyngor y byddai'n ei roi i arweinwyr y sector cymdeithasau tai.</p> <div data-bbox="300 1026 707 1129"></div>
9.45am	Cyfle am goffi a sgwrs



10.00am	<b>Croeso a Gosod y Llwyfan</b> Michelle Reid, Prif Weithredwr, Cartrefi Cymoedd Merthyr a Chadeirydd y Gynhadledd   @MichReid2014
10.05am	<b>Caffe Aelodau Bwrdd - Getting Tingly about Governance</b> Karl George MBE, Partner a Phennaeth Llywodraethiant, RSM   @KarlGeorgeMBE  Mae Karl George yn arweinydd syniadau ac ymgynghorydd gydag enw da rhyngwladol mewn llywodraethiant. Mae'n Bartner ac yn Bennaeth Llywodraethiant RSM ac wedi creu'r rhaglenni Aelodau Bwrdd Effeithlon. Mae'n gweithio gyda byrddau ac uwch weithredwyr yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ac mae ganddo dros ugain mlynedd o brofiad cyfunol mewn cyfrifeg, busnes a datblygu strategol.  Cynlluniwyd y sesiwn i'n hysbrydoli drwy ailfywiogi ein gwerthfawrogiad o rym byrddau, timau gwiethredol a staff llywodraethiant da i arwain sefydliadau a rhoi gweledigaeth glir iddynt o'u diben. Bydd Karl yn codi cwr y llen ar sut y gall byrddau godi eu golygon tu hwnt i'r yma a'r nawr er mwyn arwain eu sefydliadau i'r dyfodol. Bydd hefyd yn ystyried rôl Cod Llywodraethiant wrth adeiladu perthynas waith dda o fewn byrddau cymdeithasau tai a'u helpu i lywio eu sefydliad drwy gyfnod anodd.
10.30am	<b>Cyfle am goffi</b>
10.35am	<b>Sesiwn Panel: Safbwyntiau gwyllo'r gorwel ar gyfer arweinwyr yng Nghymru</b>  Mae ein hail egwyddor greiddiol yn ymwneud ag arweinyddiaeth. Bydd y sesiwn panel yn rhoi ystod o safbwyntiau ar y materion sylweddol y dylai'r arweinwyr sector eu cadw yn eu golygon, yn cynnwys cysylltiadau â benthydwyr a thenantiaid, her datgarboneiddio ar raddfa fawr a chefnlen yr iechyd cyhoeddus a heriau anghydraddoldeb sy'n ein hwynebu yng Nghymru.  <ul style="list-style-type: none"><li>• Piers Williamson, Prif Weithredwr, Y Gorfforaeth Cyllid Tai</li><li>• Gill Kernick, Ymgynghorydd Strategol ac awdur 'Catastrophe and Systemic Change'   @gillkernick</li><li>• Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd ac Arweinydd Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf   @KelechiNnoaham</li><li>• Simon Markall, Dirprwy Gyfarwyddwr Materion Allanol, Energy UK   @Simonmarkall</li></ul>



11.20am	Cyfle am goffi a sgwrs
11.30am	<p><b>Sesiynau Gweithdy</b> Ffocws y sesiynau hyn fydd egwyddorion cywirdeb, gwneud penderfyniadau, risg a rheoli ac effeithlonrwydd bwrdd. Byddant yn codi cwr y llen ar beth sy'n digwydd pan aiff pethau o chwith neu os yw'r gwaethaf yn digwydd, mewnbyn ar weithio effeithlon mewn amgylchedd rhithwir a dynesiadau strategol at graffu a her.</p>
	<p><b>Her Bwrdd</b> <b>Nigel Ireland, Barcud Shared Services Cyf   @BarcudSS</b> Mae'r Fframwaith Rheoleiddiol newydd a Chod Llywodraethiant CHC yn tanlinellu pwysigrwydd rôl y Bwrdd wrth graffu a herio gwybodaeth/data yn effeithlon a bydd y sesiwn yma yn canolbwyntio ar ddulliau a thechnegau ymarferol sut y gall y Bwrdd weithredu ei ddyletswyddau yn y ffordd fwyaf effeithlon gan gadw yn briodol strategol a heb grwydro i diriogaeth gweithredol. Bydd y sesiwn yn rhoi sylw i graffu ar feysydd allweddol yn cynnwys perfformiad, data a risgiau ac ystyried sut y gall arferion da hybu darpariaeth sicrwydd a gwneud penderfyniadau.</p>
	<p><b>Sicrwydd Bwrdd: Ansawdd a Safonau</b> <b>Kieran Colgan &amp; Adam Borrie, Ark Consultancy   @ARKConsultLtd a Sara Woodall, Connexus   @WoodallSara</b> Bydd Kieran, Sara a Adam yn siarad am y "safonau" y mae byrddau yn mynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd. Byddant yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â rheoleiddio ac ansawdd tai, datgarboneiddio, ymgysylltu â thenantiaid a diwylliant.</p> <p>Mae Adam Borrie yn Uwch Ymgynghorydd gyda ARK. Mae gan Adam brofiad sylweddol o wasanaethau rheoli asedau a hefyd weithio yn y sector ynni adnewyddadwy. Fel cyn gadeirydd Homes for Islington mae ganddo hefyd ddealltwriaeth agos o rôl Aelod Bwrdd.</p> <p>Mae gan Sara Woodall dros 30 mlynedd o brofiad yn y sector tai a bu ganddi swyddi fel Cyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Swyddog Gweithredol. Mae Sara wedi bod yng ngofal amrywiaeth o wasanaethau rheng-flaen heriol ac mae ganddi arbenigedd neilltuol mewn ymgysylltu â chwsmeriaid, cwynion a phrofiadau cwsmeriaid a rheoli canolfan gyswllt. Cafodd Sara ei phenodi'n ddiweddar yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau newydd gyda Connexus gyda dros 10,500 o gartrefi yn Swydd Amwythig a Swydd Henffordd.</p>



	<p>Dechreuodd Kieran Colgan ei yrfa fel Swyddog Iechyd yr Amgylchedd gan fynd ymlaen i reoli tai sector preifat a gwasanaethau rheoli asedau. Arferai Kieran fod yn Arolygydd Tai Arweiniol yn y Comisiwn Archwilio ac yn ddiweddar arweiniodd ymchwiliad annibynnol ARK o Gyngor Croydon yn dilyn y sylw proffil uchel ar newyddion ITV.</p>
	<p><b>Y Bwrdd Rhithwir</b> <b>Jenny Brown, Altair   @AltairLtd</b> Roedd yn rhaid i sefydliadau addasu'n gyflym yn 2020 i ffordd newydd o weithio. Roedd yn rhaid i fyrddau gydbwysu dieithrwch mynd yn rhithwir gyda phwysau diogelu eu sefydliadau. Yn y sesiwn yma byddwn yn clywed gan Jenny Brown, Cyfarwyddwr Altair ar sut i gadw'r Bwrdd yn gweithio fel tîm arweinyddiaeth strategol mewn byd rhithwir a gwneud yn siŵr fod gan bawb lais ac wedi ymgysylltu</p>
	<p><b>Llwybr i'r Bwrdd</b> <b>Hayley Selway, Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd   @CCHACorporate</b> Mae prosiect Llwybr i'r Bwrdd yn gyfle datblygu proffesiynol parhaus a gynlluniwyd i hwyluso pethau i unigolion o gymunedau lleiafrif ethnig sydd eisiau cyfrannu at arweinyddiaeth sefydliad, yn neilltuo y sector tai. Nod y prosiect yw rhoi safbwynt ymarferol a damcaniaethol drwy hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ac arsylwi ar gyfarfodydd bwrdd. Bydd yn rhoi cyfle i unigolion i ddylanwadu a newid sut mae sefydliadau'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar gymunedau Cymru a gobeithir y bydd yn rhan o fudiad i newid wyneb arweinyddiaeth ar draws Cymru.</p>
<b>12.30pm</b>	<b>Cinio a rhwydweithio</b>
<b>1.30pm</b>	<p><b>Sesiwn Panel: Gwrth-hiliaeth a chynhwysiant hiliol fel blaenoriaeth i'r Bwrdd</b></p> <p>Yn unol â'n hegwyddorion llywodraethiant creiddiol, mae byrddau cymdeithasau tai ledled Cymru yn gweithredu i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, amrywiaeth a chynhwysiant.</p> <p>Fodd bynnag, oherwydd pwysigrwydd hanfodol cymdeithasau tai fel darparwyr cartrefi, cyflogwyr a sefydliadau angor yn eu cymunedau, sut y gallwn fod yn siŵr ein bod yn gwneud digon – a sut y gallwn sicrhau ein bod yn dod â phrofiadau bywyd ein staff, tenantiaid a chymunedau yn effeithlon i wneud penderfyniadau strategol? Beth ddylen ni ei wneud i sicrhau y caiff hyn y statws dyladwy fel blaenoriaeth busnes hanfodol?</p>

# Cynhadledd Llywodraethiant CHC 2022



	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cadeirydd y Sesiwn: Gemma Watkins, Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau, Tai Aelwyd   @GemmaWatkins2</li><li>• Michael Abiodun Olatokun, Llysgennad, Mudiad Ymddiriedolwyr Ifanc   @ab1odun</li><li>• Srabani Sen, Prif Swyddog Gweithredol a Sefydlydd, Full Colour   @Srabani_Sen</li><li>• Joseph Elliott, Uwch Ddadansoddydd, Sefydlydd Joseph Rowntree   @J_Elliott94</li></ul>
2.30pm	Cyfle am goffi a gwrs
2.45pm	<p><b>Prif Sesiwn: Pam ei bod yn bwysig bod yn agored ac atebol</b> <b>Annie Machon, Awdur, Cyfarwyddwr, cyn-M15   @AnnieMachon</b></p> <p>Yn y sesiwn olaf bydd Annie Machon yn ein hatgoffa pam fod bod yn agored ac atebol yn hollbwysig i ni fel sefydliadau ac fel sector er mwyn adeiladu hyder ac ymddiriedaeth.</p> <p>Fel cyn swyddog cuddwybodaeth M15 ac yn enwog am chwythu'r chwiban, datblygodd Annie safbwynt prin ar gyfer gweithio mewnol llywodraethau, asiantaethau cuddwybodaeth a'r cyfryngau, yn ogystal â'r goblygiadau ehangach ar gyfer yr angen i fod yn fwy agored ac atebol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.</p>
3.15pm	<b>Bwrw Golwg yn Ôl ar y Gynhadledd a Chau: Michelle Reid, Cadeirydd y Gynhadledd</b>

Allweddol:

**Prif Sesiwn**

Egwyl a Rhwydweithio

Gweithdy

[Archebu Nawr](#)

[E-bost Tîm Digwyddiadau](#)